Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

6. Cyflogi a rheoli pobl

6.2 Cyflogi staff am y tro cyntaf

Mae eich mudiad yn gyflogwr cyn gynted â bydd yn recriwtio am staff cyflogedig. Ni ddisgwylir i'r mudiad arbenigo yn y cyfrifoldebau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chyflogi, ond gofynnir iddo gadw golwg ar y newidiadau a sicrhau ei fod yn gofyn am arbenigedd a chyngor ble bo angen.

Dylech gymryd eich rôl fel cyflogwr a'r gofynion cyfreithiol o ddifri:

- Chi sy'n gyfrifol am ofalu fod y staff yn gweithio'n effeithiol tuag at gyflawni amcanion y mudiad. Os nad ydynt, nid ydych yn rheoli adnoddau'r mudiad yn ddigon effeithiol.
- Gall eich mudiad wynebu cosbau difrifol os nad ydych yn ufuddhau i'r rheolau cyflogaeth. Mewn rhai amgylchiadau gallwch wynebu atebolrwydd personol am ddyledion sydd o ganlyniad i gamreolaeth staff neu fethiant i lynu wrth ddeddfwriaeth cyflogaeth.

Y swydd

Cam cyntaf y broses yw penderfynu am beth rydych eisiau cyflogi staff a pha oriau gwaith fydd eu hangen i weithredu'r dyletswyddau'n effeithiol. I wneud hyn, bydd angen i chi lunio disgrifiad swydd a manyleb person.
Hefyd bydd angen i chi lunio cytundeb cyflogaeth a gosod polisïau cyflogaeth megis cyfleoedd cyfartal, disgyblaeth a dulliau achwynion, ac ati.

Wedyn bydd angen i chi sicrhau ariannu ar gyfer y swydd(i). I wneud hyn, bydd rhaid i chi weithio allan beth fydd cost gweithiwr. Edrychir ar hyn a materion perthnasol eraill isod.

Gwneud penderfyniadau

Mae cyflogi gweithiwr am y tro cyntaf yn gam mawr i unrhyw fudiad. Gall gwneud pethau'n iawn neu'n anghywir gael effaith ar oroesiad y mudiad ai peidio. Felly mae'n hanfodol derbyn cadarnhad y bwrdd ymddiriedolwyr, y tîm rheoli neu'r pwyllgor gweithredol ar bob cam o'r daith:

- Cytuno'r disgrifiad swydd ac ati
- Cytuno'r termau a'r amodau
- Cytuno'r broses recriwtio
- Paratoi cynigion ariannu

- Dewis a dethol rhestr fer
- Adolygu cyfnod prawf a chadarnhad y swydd

Gellir dirprwyo rhai o'r camau yma i is-bwyllgor. Dylid gofyn am gyngor arbenigol ar unrhyw gam pan fo angen.

Graddau a chyflog y staff

Elfen allweddol cost cyflogi staff yw'r cyflog. Wrth ariannu, rhaid gwneud cais am y cyflog ynghyd â chyfraniadau'r gweithiwr i Yswiriant Cenedlaethol.

Telir staff yn y sector gwirfoddol yn aml ar Raddfeydd Cyflog NJC. Adolygir y rhain o Ebrill 1 bob blwyddyn.

Mae grwpiau gwirfoddol bach yn debygol o dalu staff ar lefelau isaf y graddau yma. Os ydych yn gwneud cais am ariannu swydd yn hwy nag un flwyddyn, dylech ystyried os dylech ganiatáu peth cynnydd yn y bandiau cyflog a chynnydd costau byw. Os nad ydych yn derbyn ariannu llawn bydd angen i chi adolygu'r sefyllfa a phenderfynu os allwch chi leihau oriau neu radd i gyflenwi'ch costau.

Pensiynau, budd-daliadau a threuliau

Bydd angen i chi benderfynu os fyddwch yn cyfrannu at bensiwn i'ch gweithiwr ac os felly, cynnwys y gost (fel arfer rhwng 3 ac 11 y cant o gyflog y gweithiwr) yn eich cais ariannu. Cofiwch gall peidio gwneud cyfraniad o'r fath fod yn rhwystr i ddod o hyd i weithiwr addas.

Bydd angen i chi benderfynu beth fydd costau gweithiwr i chi yn nhermau:

- costau hyfforddi
- treuliau teithio a chynhaliaeth
- lwfans gofal plant

Nid yn unig bydd rhaid i chi gynnwys y rhain yn eich cais ariannu, ond rhaid i chi sicrhau eich bod yn aros o fewn cyfyngiadau'r Cyllid Gwladol. Mae'n syniad da i wirio pob lwfans gyda'ch Swyddfa Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC), a gwneud cais am ollyngiad parthed talu treuliau.

Mae cyflogwyr sy'n cyflogi pum gweithiwr neu fwy sy'n ennill mwy na'r lefel isaf cyflog yn rhwymedig i gynnig pensiwn budd-ddeiliad.

Gosod eich system gyflogau

Mae gennych ddau ddewis:
- Cyflogi canolfan system gyflogau.
- Gweithredu'r system gyflogau eich hun.

Wedi ei ddiweddaru:26/08/2011

Heblaw bod gennych brofiad da o redeg system gyflogau, fe'ch cynghorir chi i ddewis yr opsiwn gyntaf.

Beth bynnag a wnewch, bydd angen i chi gofrestru gyda'r HMRC fel cwmni newydd ar eu llinell gofrestru (0845 607 0143). Byddant yn anfon pecyn system gyflogau i chi, a nifer o ganllawiau defnyddiol a manylion cyrsiau i roi cymorth i gyflogwyr newydd.

Cwrdd â goblygiadau cyfreithiol

Unwaith y byddwch yn gyflogwr, bydd angen ichi gwrdd â nifer o oblygiadau cyllidol a threth allweddol:

- Talu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol o leiaf i'ch gweithwyr.
- Dechrau System Pensiwn Budd-ddeiliad pan fo angen.
- Sicrhau fod cyfraniadau PAYE Treth Incwm ac Yswiriant Cenedlaethol yn cael eu talu i'r Cyllid Gwladol erbyn y dyddiadau cau (misol neu chwarterol yn ôl y swyddfa taliadau).
- Talu Credydau Treth i weithwyr pan ofynnir amdano gan y Cyllid Gwladol.
- Anfon ffurflenni a dychweliadau penodol i'r gweithwyr a / neu'r Cyllid Gwladol erbyn y dyddiadau penodol.

Rhaid i gyflogwyr ddarparu datganiad cyflog ysgrifenedig cyn neu ar yr adeg a delir y cyflog. Rhaid i'r datganiadau yma ddangos cyflog gros a net, gyda'r cyfansymiau a'r rhesymau am y didyniadau.

Gwybodaeth bellach

HM Revenue and Customs
www.hmrc.gov.uk

Pay Connect – Gwasanaeth gyflogau ar gyfer y trydydd sector
Ffôn: 01745 357588
www.wcva.org.uk

ACAS
Ffôn: 08457 474747
www.acas.org.uk

WCVA / Wales TUC Cymru
The good employment code
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk

Wales TUC Cymru
Ffôn: 029 20 347010
wtuc@tuc.org.uk
www.wtuc.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland , Stryd y Ffynnon , Rhuthun , Sir Dinbych , LL15 1AF
Elusen Gofrestredig *1054322*

Ffôn: 01824 702441 office@dvsc.co.uk
Ffacs: 01824 705412 www.dvsc.co.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:26/08/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk